# PWYLLGOR ARCHWILIO

Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2017

**PRESENT:** Councillor

**Councillors:**
H.A.L. Evans, A.G. Morgan, E.G. Thomas, T.M. Higgins, B. Thomas, G.H. John, A.C.J. Jones and D.E. Williams

**The following Officers were in attendance:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol
C. Daniels, Senior Sports and Leisure Manager
N. Davies, Swyddog Comisiynu a Chontractio
L. Harries, Computer Auditor
N. Edwards, Safeguarding & Commissioning Manager
A. Thomas, Uwch-archwilydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
C. Wilkins, Cyfrifydd Cynorthwyol

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.40 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant

## 3. PENODI CADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd T. Higgins yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.**

## 4. PENODI IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd A.G. Morgan yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.**

## 5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17 A 2017/18.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r Cynllun Archwilio Mewnol. Nodwyd bod Rhan A yn darparu adroddiad cynnydd ar Gynllun Archwilio 2016/17 a 2017/18 ynghyd ag argymhellion Matrics Sgorio. Roedd Rhan B yn grynodeb o

adroddiadau terfynol wedi'u cwblhau ar gyfer 2016/17 ynghylch y prif systemau ariannol (Ebrill 2016 hyd y presennol). Roedd Rhan C yn ymwneud ag adolygiadau o systemau eraill ac Archwiliadau Sefydliadau.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiadau:-

- Cyfeiriwyd at Adroddiad C a'r Archwiliad Mewnol o Reoli Contractau Adrannol. Ceisiwyd eglurhad ynghylch a oedd unrhyw gynlluniau i gynnal archwiliadau pellach i asesu a oedd y materion a nodwyd yn yr adroddiad ar yr 8 contract wedi cael sylw ac a oedd y Penaethiaid Gwasanaeth newydd yn yr is-adrannau yn rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith. Cadarnhaodd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael fod darpariaeth wedi ei gwneud yng Nghynllun Archwilio 2017/18 i roi sylw eilwaith i'r materion hynny. Dywedodd ymhellach fod ymagwedd yr Awdurdod at gaffael wedi newid bellach i fod yn fwy rhagweithiol, gan ystyried sut a beth oedd yn ei brynu gyda golwg ar wneud arbedion effeithlonrwydd.

  Dywedodd y Pennaeth Eiddo, er bod y materion a godwyd yn yr adroddiad yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau gwastraff, roedd rhai ohonynt yn ymwneud â'r gwasanaethau eiddo cyn iddo ef gymryd cyfrifoldeb dros y gwasanaeth hwn. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod gweithdrefnau yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r materion hynny.

- Mewn ymateb i gwestiwn ar werth yr 8 contract, dywedodd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael er nad oedd ganddi'r wybodaeth benodol ar gael yn y cyfarfod, byddai pob un wedi bod yn fwy na £75k. Cadarnhaodd y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i'r wybodaeth gael ei darparu'n uniongyrchol i Aelodau'r Pwyllgor.
- Cyfeiriwyd at archwilio'r 8 contract a cheisiwyd eglurhad ynghylch a oedd cwmpas yr Archwiliad wedi ei ehangu i gynnwys contractau eraill. Dywedodd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael fod yr Awdurdod wedi sefydlu Bwrdd Caffael i oruchwylio contractau, yn enwedig y rhai o werth uchel, i sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn y fframwaith perthnasol a'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau. I gynorthwyo'r Bwrdd yn hynny o beth, defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd gan system Atamis (gan ddisodli system Spike) i werthuso nifer o gontractau a ddyfarnwyd i un cyflenwr ar draws nifer o adrannau e.e. torri glaswellt, er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau am y pris gorau.

  Gan ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau er bod y data hanesyddol a gâi ei gadw ar Spike yn cael ei drosglwyddo'n raddol i Atamis, y byddai modd ei gyrchu o hyd, hyd y gellid ei ragweld.
- Cyfeiriwyd at Adroddiad C a'r Archwiliad ar gynnal a chadw cyfalaf. Ceisiwyd eglurhad ynghylch pa fesurau oedd gan yr Awdurdod/roedd yr Awdurdod yn eu cymryd i fynd i'r afael â materion a nodwyd mewn perthynas â threfniadau yn ôl y gofyn a chadw tystiolaeth ysgrifenedig ôl-gwblhau.

  Dywedodd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal gweithdy ym mis Medi i graffu ar ganfyddiadau'r adroddiad, gan ddefnyddio cynnal a chadw adeiladau fel peilot, a thrwy'r broses honno byddai fframwaith newydd yn cael ei ddatblygu. Byddai trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal ar gryfhau'r trefniadau yn ôl y galw.

Mewn perthynas â gwiriadau ôl-gwblhau, cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo er i'r rheiny gael eu cwblhau cyn talu'r anfonebau, nad oedd dim tystiolaeth ddogfennol arall i'r perwyl hwnnw wedi cael ei chadw. Erbyn hyn roedd trefniadau wedi'u cyflwyno, drwy profforma, i sicrhau bod y dystiolaeth briodol wrth law pan wnaed taliadau. O ran trefniadau yn ôl y gofyn, roedd y mater hwnnw'n cael ei unioni a byddai'n cydymffurfio â'r fframwaith, gan sicrhau bod y broses yn cael ei dogfennu'n llawn ac y cytunir arni â'r contractwyr. Dywedodd hefyd y byddai'r Awdurdod yn mynd i dendr y flwyddyn nesaf ar gyfer cael fframwaith newydd yn lle'r un presennol.

- Cyfeiriwyd at adroddiad C a'r Archwiliad ar Ganolfan Chwaraeon Ardal Coedcae a cheisiwyd eglurhad ynghylch a oedd mesurau wedi'u cyflwyno i fonitro'r incwm oedd yn cael ei gasglu yn y Ganolfan.

  Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr Hamdden a Chwaraeon, yn dilyn yr Archwiliad, fod yr holl archebion ar gyfer y ganolfan yn cael eu trefnu bellach drwy system archebu Gladstone yng Nghanolfan Hamdden Llanelli. Ar gyfer defnyddwyr y gampfa, roedd system heb arian parod yn cael ei chyflwyno i leihau risg ar y safle (h.y. ymuno ar-lein neu drwy Ganolfan Hamdden Llanelli a thalu'n fisol drwy ddebyd uniongyrchol) a fyddai ar waith erbyn diwedd Awst 2017. Byddai'r safle yn un 'heb arian parod' o'r pwynt hwnnw ymlaen, ac yn rhoi sylw i'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn yr adroddiad archwilio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad cynnydd ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17 ac Adroddiad Diweddaru 2017/18 yn cael eu derbyn, at ddibenion monitro.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWYLIAD MEWNOL 2016/17.

Cafodd y Pwyllgor, er ystyriaeth, Adroddiad Blynyddol Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael, a luniwyd yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), a oedd yn rhoi barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli'r Cyngor am y flwyddyn Ebrill 2016 hyd at Fawrth 2017, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2016/17, fel y cytunwyd ar hynny gan y Pwyllgor Archwilio.
Nododd y Pwyllgor fod Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael o'r farn fod gan yr Awdurdod, ar y cyfan, amgylchedd rheoli digonol ac effeithiol ar waith. Roedd trefniadau llywodraethu clir â chyfrifoldebau rheoli a strwythurau pwyllgorau pendant ar waith. Roedd rheoli risg a'r fframwaith rheoli yn gadarn ar y cyfan ac yn cael eu gweithredu'n eithaf cyson. Roedd gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac roedd wedi datblygu polisïau a chymeradwyo Rheolau Gweithdrefn Ariannol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r holl staff ac aelodau. O ganlyniad, roedd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael yn fodlon fod gwaith sicrwydd digonol wedi ei gyflawni i'w galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod.
Gan ymateb i gwestiwn ar drefniadau staffio yn yr adain Archwilio, amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol gynigion ar gyfer ad-drefnu'r adain, gan gynnwys apwyntiadau oedd i'w gwneud i swyddi Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Phen-archwilydd i ganolbwyntio ar archwilio'n unig, gan ddisodli swydd bresennol y Rheolwr Archwilio a Risg. Cadarnhaodd mai 10

fyddai nifer y staff yn yr uned, a byddai'r nifer honno'n cael ei hategu ar sail ad-hoc drwy secondiadau a graddedigion dan hyfforddiant.
Cyfeiriwyd at dudalen 57 o'r adroddiad ac at gategoreiddio materion 2 seren a godwyd yn 2016/17. Ceisiwyd eglurhad ynghylch a oedd tuedd yn ymddangos mewn perthynas â materion polisi ac, os felly, pa fesurau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r duedd honno. Cadarnhaodd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael ei bod yn amlwg fod patrwm yn datblygu ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gyflwyno mesurau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd.
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r gofynion statudol, fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 7. BLAENRHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO.

Ystyriodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.

Cyfeiriodd Pennaeth Dros Dro Archwilio, Risg a Chaffael at y ddarpariaeth yn y rhaglen ar gyfer sesiynau anffurfiol/hyfforddiant a gofynnodd a oedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n werth chweil, yn unol ag arfer da, cwrdd ag Archwilwyr Allanol y Cyngor unwaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 fod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Archwilio am 2017/18 yn cael ei chymeradwyo.**

**7.2 yn unol ag arferion da, fod y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod ag Archwilwyr Allanol y Cyngor yn flynyddol.**

## 8. DIWEDDARIAD AR GEFNOGI POBL.

Yn unol â Chofnod 6 o'i gyfarfod ar 6 Ionawr 2017, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd chwemisol ar Gynllun Gweithredu y Gwasanaeth Cefnogi Pobl, a oedd yn crynhoi'r gwaith oedd wedi ei wneud hyd yn hyn i gyflawni gwelliannau yn y prosesau grant a rheoli contractau, fel y nodwyd yn Archwiliad Mewnol 2015/16 o Grant Rhaglen Cefnogi Pobl 2015/16. Nodwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran y cynllun gweithredu a oedd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cynnig yn y Cynllun Gweithredu i ddod i gytundeb erbyn canol mis Medi 2017 ar lefel y taliadau rheoli derbyniol ac a oedd y targed hwnnw'n gyraeddadwy.

  Dywedodd y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu fod cyfarfod o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi, pryd y rhagwelwyd y byddai'r cytundeb yn cael ei gadarnhau.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar argymhelliad 8 yn y cynllun sy'n ymwneud â thaliadau cymhorthdal, dywedodd y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu y rhagwelid y byddai'r materion yn cael eu hunioni yn dilyn ymgynghoriad pellach.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch tynnu'n ôl neu leihau cymorth grant oherwydd achosion o ddiffyg cydymffurfio, dywedodd y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu nad oedd Llywodraeth Cymru, hyd y gwyddai ef, wedi cymryd yr un o'r camau hynny. Fodd bynnag, roedd materion wedi codi yn y gorffennol lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hunioni cyn talu'r grant.

  Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er bod Llywodraeth Cymru wedi dal taliadau grant yn ôl o'r blaen am resymau penodol, eu bod wastad wedi cael eu talu.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar argymhelliad 4 ynghylch y potensial ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd rhwng Cynghorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro, cadarnhaodd y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu fod trafodaethau'n mynd rhagddynt â Sir Benfro ynghylch comisiynu tendr ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau mewn perthynas â Thrais Domestig yn erbyn Menywod. O ran cyfranogiad Ceredigion i gomisiynu ar y cyd, roedd hynny'n llai a byddai angen rhoi rhagor o ystyriaeth i lefelau cyfranogiad rhwng yr awdurdodau i sicrhau bod llwyth gwaith cysylltiedig yn cael ei ddosbarthu'n deg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**8.2 bod y Pwyllgor yn parhau i dderbyn diweddariadau bob 6 mis ar y Cynllun Gweithredu.**

## 9. ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Jeremy Evans o Swyddfa Archwilio Cymru.

### 9.1. DIWEDDARIAD PWYLLGOR ARCHWILIO - GORFFENNAF 2017

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio oedd wedi'i wneud ynghylch yr Awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru hyd at fis Gorffennaf 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

### 9.2. CYNLLUN GWELLA BLYNYDDOL 2016/17 - CYNGOR SIR GAERFYRDDIN.

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am Welliant Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2016/17, a baratowyd fel rhan o Raglen Archwilio 2017/18.

Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar y Cyngor a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod yn adolygu'n barhaus ac y byddai'n bodloni ei rwymedigaethau. Nodwyd ymhellach fod Atodiad C i'r adroddiad yn cynnwys argymhellion a ddeilliai o Adroddiad Cenedlaethol 2016/17.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9.3. LLYWODRAETHU DA WRTH BENDERFYNU AR NEWIDIADAU GWASANAETH SYLWEDDOL.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Lywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Gwasanaeth Sylweddol - Cyngor Sir Caerfyrddin', a wnaed fel rhan o Raglen Archwilio 2017/18 sy'n cynnwys y tri chynnig canlynol a awgrymwyd ar gyfer gwella:

C1 - Y Pwyllgorau Craffu yn ystyried manteisio'n well ar gyfleoedd i herio cynigion a phenderfyniadau ynghylch newid,

C2 - Y Swyddogion yn gweithio gyda'r cynghorwyr i nodi lefel y wybodaeth y mae cynghorwyr am ei gweld ar opsiynau ar gyfer newid gwasanaeth, er mwyn gwella tryloywder o ran y broses gwneud penderfyniadau,

C3 - Y Cyngor yn adolygu cylch gwaith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a Gweithgor yr Adolygiad Corfforaethol er mwyn egluro eu cyfrifoldebau o ran asesu ac adolygu trefniadau llywodraethu.

Gan ymateb i gwestiwn ar y tri chynnig, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn perthynas â Chynnig 1, er bod cynigion i newid gwasanaeth yn cael eu rhoi gerbron pwyllgorau craffu, fod eu natur yn yr ystyr eu bod yn cynnig newidiadau i'r gwasanaeth yn heriol. O ran C2, roedd yr awdurdod wedi cynnal sesiynau cyllideb anffurfiol yn flynyddol i drafod cynigion cyllidebol, gan gynnwys newidiadau gwasanaeth, ac roedd yn archwilio fformat y sesiynau hynny ar hyn o bryd wrth i'r gwaith fynd rhagddo ar gynigion cyllideb 2018/19. Mewn perthynas â C3, ystyriwyd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a Gweithgor yr Adolygiad Corfforaethol yn endidau ar wahân, gyda'r Grŵp yn un dan arweiniad swyddogion a oedd yn mynd i'r afael â materion llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a'r gweithgor yn mynd i'r afael â materion cyfansoddiadol ar lefel aelodau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9.4. CYNLLUNIO ARBEDION MEWN CYNGHORAU YNG NGHYMRU.

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am Gynllunio Arbedion mewn Cynghorau yng Nghymru, fel rhan o Raglen Archwilio 2017/18 sy'n cynnwys y 4 cynnig a wneir amlaf ar gyfer gwelliant ledled Cymru.

- Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod cynigion arbedion yn cael eu datblygu'n llawn, bod y risg sydd ynghlwm wrthynt wedi cael ei hasesu a'u bod yn cynnwys amserlenni gweithredu realistig, cyn eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol,
- Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy ddatblygu arbedion dangosol i gwmpasu cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy ddatblygu polisi creu incwm/codi tâl
- Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy integreiddio ac ymgorffori

prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol

Wrth roi sylw i'r 4 maes, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod darpariaeth gyfredol wedi ei gwneud ar gyfer y cynnig cyntaf ym mhroses pennu cyllideb y Cyngor. Yng nghyswllt yr ail gynnig, er bod gan yr awdurdod systemau Asesiad Risg ac Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd, roedd ei allu i gynllunio ar gyfer £36m o arbedion dros gyfnod o 3 blynedd yn heriol yn absenoldeb ffigurau dangosol neu ffigurau manwl gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. O ran incwm/codi tâl a chynllunio ariannol/busnes, roedd gan yr Awdurdod bolisïau priodol ar waith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 10. DATGANIAD CYFRIFON 2016/17.

Ystyriodd y Pwyllgor Ddatganiad Cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2016-17, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Dyfed, a luniwyd yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Roedd y Datganiad yn dwyn ynghyd holl drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn am y flwyddyn, a hefyd roedd yn rhoi manylion asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn fel yr oeddent ar 31 Mawrth, 2017.

Yn ystod 2016/17 roedd yr Awdurdod wedi cadw at gyllideb gwariant net Cronfa gyffredinol y Cyngor, ac roedd y canlyniadau canlynol wedi eu cynnwys yn Natganiad Symudiadau Cronfeydd yr Awdurdod:-

- Cronfa'r Cyngor (ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwariant newydd) – trosglwyddo i'r balans £525k;
- Balansau ariannol yr ysgolion o dan gynlluniau rheoli lleol – trosglwyddo o'r balansau £1,967k;
- Y Cyfrif Refeniw Tai – cynnydd yn y balans o £4,890k;

Nodwyd er bod nifer o feysydd gwasanaeth ar draws yr Awdurdod wedi bod dan bwysau yn sgil galwadau yn ystod y flwyddyn, roedd y rheiny wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariant mewn meysydd gwasanaeth eraill, yn benodol ar gostau cyllido cyfalaf, a oedd yn cynnwys arbedion o £2.9m yn sgil newid yn null ad-dalu'r arian roedd y Cyngor wedi cael ei fenthyg, o ddull balans gostyngol o 4% i ddull 'llinell syth' o 2.5% (a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Ebrill 2017) a lefel gasglu uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd ar y dreth gyngor.

Roedd yr alldro a ddeilliai o hynny yn golygu bod yr Awdurdod wedi trosglwyddo £525k i'w gronfeydd wrth gefn cyffredinol, yn erbyn £65 yr oedd wedi'i drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn.

Hefyd ceisiwyd sylw a chaniatâd ôl-weithredol gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r symudiadau canlynol i'r cronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt:-

*Y Gronfa Datblygiadau Mawr* - trosglwyddo £3.9m i gefnogi datblygiadau mawr yn y dyfodol;

Rheoli Fflyd y Cyngor - trosglwyddo £1.33m i dalu costau adnewyddu'r fflyd

*Cyllid Cyfalaf y Rhaglen Moderneiddio Addysg* – Clustnodi £3.685 miliwn yng nghyllideb 2016/2017 i dalu am gost benthyca darbodus i gyllido'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - i'w ddefnyddio yn 2016-2017.
Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn bresennol mewn sesiwn briffio yr wythnos honno ynghylch y Datganiad Cyfrifon, lle'r oeddent wedi cael cyfle i gael gwedd gliriach ar yr holl agweddau ar y Datganiad Cyfrifon.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1. dderbyn Datganiad Cyfrifon 2015/16 (Cyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed);**

11.2 cymeradwyo'n ôl-weithredol y symudiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac iddynt, yn enwedig trosglwyddiadau i:-

- **Y Gronfa Datblygiadau Mawr;**
- **Rheoli Fflyd y Cyngor**
- **Cyllid cyfalaf Rhaglen Moderneiddio Addysg.**

## 11. DATGANIAD ARIANNOL AWDURDOD HARBWR PORTH TYWYN 2016/17.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Ddatganiad Ariannol Awdurdod Harbwr Porth Tywyn 2016-17, a oedd wedi cael ei lunio'n unol â Deddf Harbyrau 1964, a nodai ei bod yn ofynnol yn statudol i bob awdurdod harbwr lunio datganiad blynyddol o gyfrifon ynghylch gweithgareddau'r harbwr.

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, roedd y cyfrifon hynny ar ffurf cyfrif incwm a gwariant blynyddol ar wahân a datganiad balansau. Cost net gweithgareddau'r harbwr yn 2016-17 oedd £247k ac roedd yr holl weithgareddau'n cael eu cyllido'n llawn gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Roedd yr asedau sefydlog a ddelir ar 31 Mawrth 2017 yn dod i gyfanswm o £3,868k.

Nodwyd hefyd fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael amrywiaeth o bwerau a dyletswyddau statudol at ddibenion gwella, cynnal a rheoli Harbwr Porth Tywyn drwy Orchymyn Adolygu Harbwr Porth Tywyn 2000.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Porth Tywyn 2016-17.**

## 12. COFNODION GRWPIAU PERTHNASOL I'R PWYLLGOR ARCHWILIO:-

### 12.1. GRWP LLYWIO RHEOLI RISG A GYNHALIWYD AR 5ED EBRILL, 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 5 Ebrill, 2017 yn cael eu derbyn.**

### 12.2. PANEL GRANTIAU A GYNHALIWYD AR 12EG MAI, 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod y Panel Grantiau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2017 yn cael eu derbyn.**

## 13. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 24AIN MAWRTH, 2017.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2017, gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**